*Atodiad 2*

# CYNNAL ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

Os am gymorth gyda llenwi'r templed yma, cysylltwch â Ruth Richards, Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith ruthrichards@gwynedd.gov.uk est. 2056

**Asesiad effaith ar broses ymgynghori Cartref Hafod y Gest**

## 1) AWDUR (ON) YR ASESIAD

Dafydd Lewis, Cyfarwyddwr Corfforaethol

## 2) PARTNERIAID

Nodwch unrhyw rai eraill sydd angen eu cynnwys fel rhan o'r broses asesu: Gall hyn gynnwys staff rheng flaen, sefydliadau partner, arbenigwyr maes ayb.

D. P. Lewis, Cyfarwyddwr Corfforaethol fydd yn cyflwyno'r argymhelliad i ymgynghori ar ddyfodol Cartref Hafod y Gest i'r Cabinet.

Grŵp Cynghorwyr Dalgylch Porthmadog, ar y cyd â phartneriaid allweddol megis Cymdeithas Tai Eryri, Gofal a Thrwsio Gwynedd, Age Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chartrefi Cymunedol Gwynedd; a gydweithiodd â Chyngor Gwynedd i gynnal asesiad o anghenion lletya a gofal pobl hŷn y dalgylch. Mae'r asesiad wedi amlygu anghenion pobl hŷn sy'n cynnwys nifer o faterion megis dewisiadau tai, cymorth i fyw gartref, cyfleoedd cymdeithasu a gofal preswyl. Bu i'r Grŵp hefyd gydnabod nad oes dyfodol i Gartref Preswyl Hafod y Gest fel y mae ond argymhellodd mai dyna'r safle gorau i unrhyw ddatblygiad i bobl hŷn i'r dyfodol.

Pennaeth Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden, sy'n cefnogi'r defnyddwyr a'r staff dan y drefn bresennol.

## 3) DYDDIAD DECHRAU'R ASESIAD

28/06/2013

## 4) DYDDIAD GORFFEN YR ASESIAD

Asesiad pellach i'w wneud pan gyflwynir casgliadau ac argymhellion y broses ymgynghori.

**5) NOD AC AMCANION Y POLISI / GWASANAETH / SWYDDOGAETH**

Nodwch pam fod angen y polisi a beth mae'r Awdurdod yn gobeithio ei gyflawni drwyddo

| |
|---|
| Mae tryloywder yn angenrheidiol yn y broses o wneud penderfyniadau yn y Cyngor, gan ystyried barn y bobl sy'n cael eu heffeithio.<br><br>Mae'r broses ymgynghori yn rhoi arweiniad i'r Cyngor gan ystyried yr angen i drawsnewid y gwasanaeth o ddefnyddio cartrefi preswyl traddodiadol i ddefnyddio Tai Gofal Ychwanegol. Bydd Tai Gofal Ychwanegol yn cynnig cyfleoedd amgenach i bobl hŷn barhau i gadw eu hannibyniaeth gyda'r sicrwydd fod cefnogaeth 24 awr ar gael pe bai ei hangen. |

**6) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD**

Pa gyfranogiad ac ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y polisi / gwasanaeth / swyddogaeth a beth oedd y canlyniad?

Yn y cyfnod a arweiniodd at lunio'r adroddiad a'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi :

•Ymgysylltu â'r cyhoedd i ymgymryd ag asesiad anghenion gofal a lletya yn nalgylch Porthmadog er mwyn adnabod gofynion ar gyfer y dyfodol.

•Cydweithio i lunio opsiynau posib ar gyfer darpariaeth llety a gofal i'r dyfodol â Grŵp Cynghorwyr Dalgylch Porthmadog, ar y cyd â phartneriaid allweddol megis Cymdeithas Tai Eryri, Gofal a Thrwsio Gwynedd, Age Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chartrefi Cymunedol Gwynedd.

•Ymgysylltu â budd-ddeiliaid allweddol i'w hysbysu o'r argymhelliad sydd i'w wneud ar ddyfodol Cartref Hafod y Gest. (Noder fod y budd-ddeiliaid yn cynnwys aelodau staff a defnyddwyr Cartref Hafod y Gest a Chanolfan Dydd Noddfa Madog, teuluoedd, Cyfeillion Hafod y Gest, cynghorwyr lleol a chynrychiolwyr Undeb).

Pe bai argymhelliad i ddechrau proses ymgynghori bydd y mesurau isod yn eu lle i gefnogi budd-ddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad:

- Pecyn gwybodaeth am yr ymgynghoriad sy'n nodi'r cefndir ac yn gosod y sefyllfa yn ei chyd-destun.
- Cyfarfodydd unigol â defnyddwyr a'u teuluoedd.
- Darpariaeth adfocatiaeth annibynnol i'r defnyddwyr, mynediad at weithiwr cymdeithasol a Gwasanaeth Cwnsela MEDRA.
- Cyfarfodydd â'r staff.
- Cefnogaeth i staff gan yr Adran Adnoddau Dynol, yn ogystal â Gwasanaeth Cwnsela MEDRA.
- Cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol â chyrff a mudiadau statudol a gwirfoddol sydd â diddordeb yn y sector gofal.
- Cynnal deialog â'r cynrychiolwyr etholedig.
- Swyddog o'r Cyngor ar gael ar amseroedd penodol i dderbyn sylwadau

pobl yr ardal.

**7) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL**

Gall y dystiolaeth fod yn seiliedig ar ddata lleol neu genedlaethol, ar fonitro ar ymgynghori, sylwadau staff ayb

Mae pob ymchwil i'r maes llety ar gyfer pobl hŷn, gan gynnwys Asesiad anghenion gofal a llety dalgylch Porthmadog, yn dangos mai adref yn eu cartrefi eu hunain mae pobl hŷn eisiau bod.

Mae Tai Gofal Ychwanegol yn cynnig yr opsiwn hwn ond gyda'r sicrwydd y bydd cefnogaeth ar gael pe bai ei hangen.

**8) BYLCHAU MEWN TYSTIOLAETH**

Nodwch unrhyw fylchau mewn tystiolaeth ac esboniwch sut y caiff y rhain eu llenwi

Nid ydym yn rhagweld bylchau mewn tystiolaeth gan y bydd y broses ymgynghori, sydd wedi'i hargymell i'w chynllunio, yn un gynhwysfawr.

**9) PERTHNASEDD AC EFFAITH**

Dylai hyn amlinellu beth yw perthnasedd y polisi/ gwasanaeth/ swyddogaeth i'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol ac i bob un o'r grwpiau cydraddoldeb (nodweddion gwarchodedig). Dylid nodi'n glir beth fydd yn effaith wir neu debygol. Efallai na fydd perthnasedd nag effaith i bob un o'r dyletswyddau na'r nodweddion, ond os canfyddir perthnasedd a/ neu effaith mewn unrhyw un neu fwy o gategorïau, yna bydd gofyn bwrw ymlaen gyda'r Asesiad

**9a) O safbwynt y dyletswyddau cyffredinol**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | Perthnasedd | Yr effaith wirioneddol neu debygol |
|---|---|---|
| **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Perthnasol | Byddem yn sicrhau na fydd argymhellion yr adroddiad na'r broses ymgynghori yn camwahaniaethu yn erbyn unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | **Perthnasol** | Bydd argymhelliad yr adroddiad ac unrhyw ymgynghoriad statudol sydd i'w gymeradwyo yn hyrwyddo cyfle cyfartal. |
| **Meithrin perthnasau da** | **Perthnasol** | Yn ystod yr ymgynghoriad, byddem yn hybu perthnasau da drwy annog cyfranogiad a mewnbwn budd-ddeiliaid amrywiol yn y broses ymgynghori. |

**9b) O safbwynt y grwpiau cydraddoldeb**

| Nodweddion | Perthnasedd | Yr effaith wirioneddol neu debygol |
|---|---|---|
| **Hil** | Perthnasol | Bydd unrhyw lenyddiaeth a gohebiaethau yn cael eu cyflwyno yn y Gymraeg neu'r Saesneg gan mai dyma yw iaith gyntaf y budd-ddeiliaid allweddol sydd â chyswllt â'r Cartref neu Ganolfan Noddfa Madog.<br><br>Nid ydym yn rhagweld y bydd yr ymgynghoriad yn achosi mwy o bryder i un grŵp nac un arall. Bydd angen ailymweld â hyn yng ngoleuni canlyniadau'r ymgynghoriad. |
| **Anabledd** | Perthnasol | Mae gan nifer o'r defnyddwyr gwasanaeth anableddau amrywiol megis problemau cof a chyflyrau fel arthritis sy'n gwneud symudedd yn anodd.<br>Bydd yr ymgynghoriad yn ystyried anghenion y defnyddwyr drwy gynnig:<br><br>• Gwasanaeth Adfocatiaeth annibynnol i'r rhai sy'n dymuno ei ddefnyddio<br>• Pecyn ymgynghori ar fformatau amgen yn unol â dewis yr unigolyn.<br><br>O ran y defnyddwyr gwasanaeth, gallai canlyniad yr ymgynghoriad ac unrhyw benderfyniad dilynol gan y Cabinet, olygu eu bod yn gorfod symud o'u cartref. Bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i hyn yn dilyn canlyniadau'r ymgynghoriad. |
| **Rhyw** | Perthnasol | Mae mwyafrif y defnyddwyr yn ferched a mwyafrif llethol y staff yn ferched. |
| **Ailbennu rhywedd** | Perthnasol | Nid ydym yn rhagweld y bydd yr ymgynghoriad yn achosi mwy o bryder i un grŵp nac un arall. Bydd angen ailymweld â hyn yng ngoleuni canlyniadau'r ymgynghoriad. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Perthnasol | Nid ydym yn rhagweld y bydd yr ymgynghoriad yn achosi mwy o bryder i un grŵp nac un arall. Bydd angen ailymweld â hyn yng ngoleuni canlyniadau'r ymgynghoriad. |
| **Crefydd neu gred** | Perthnasol | Nid ydym yn rhagweld y bydd yr ymgynghoriad yn achosi mwy o bryder i un grŵp nac un arall. Bydd angen ailymweld â hyn yng ngoleuni canlyniadau'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | ymgynghoriad. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Perthnasol | Mae’r pecyn ymgynghori’n ddwyieithog; gall pobl ymateb drwy gyfrwng y Gymraeg neu’r Saesneg. |
| **Oedran** | Perthnasol | Ar y defnyddwyr gwasanaeth, sydd i gyd yn bobl hŷn, y gallai canlyniad yr ymgynghoriad a phenderfyniad dilynol y Cabinet effeithio arnynt ac fe allai olygu eu bod yn gorfod symud o’u cartref. Bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i hyn yn dilyn canlyniadau’r ymgynghoriad. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Perthnasol | Nid ydym yn rhagweld y bydd yr ymgynghoriad yn achosi mwy o bryder i un grŵp nac un arall. Bydd angen monitro'r sefyllfa wrth i’r broses symud yn ei blaen. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Perthnasol | Nid ydym yn rhagweld y bydd yr ymgynghoriad yn achosi mwy o bryder i un grŵp nac un arall. Bydd angen monitro'r sefyllfa wrth i’r broses symud yn ei blaen. |

## 10) MYND I'R AFAEL Â'R EFFAITH

| | |
|---|---|
| a) | **Nodwch unrhyw effaith posib o safbwynt cydraddoldeb**<br><br>Bydd unrhyw ymgynghoriad yn achosi pryder ac ansicrwydd i fudd-ddeiliaid allweddol sydd â chyswllt â Chartref Hafod y Gest a Chanolfan Noddfa Madog. Yn sgil hyn, bydd swyddogion Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden yn cydweithio i roi trefniadau yn eu lle i'w cefnogi yn ystod y cyfnod. (Gweler 9 b am fanylion y trefniadau). |
| b) | **Pa gamau ellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma?**<br><br>Pe bai argymhelliad i ddechrau proses ymgynghori, bydd y mesurau isod yn eu lle i gefnogi budd-ddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad:<br>•Pecyn gwybodaeth am yr ymgynghoriad sy'n nodi'r cefndir ac yn gosod y sefyllfa yn ei chyd-destun.<br>•Cyfarfodydd unigol â'r defnyddwyr a'u teuluoedd.<br>•Darpariaeth adfocatiaeth annibynnol i'r defnyddwyr, mynediad at weithiwr cymdeithasol a Gwasanaeth Cwnsela MEDRA.<br>•Cyfarfodydd â staff.<br>Cefnogaeth i staff gan yr Adran Adnoddau Dynol, yn ogystal â Gwasanaeth Cwnsela MEDRA.<br>•Cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol â chyrff a mudiadau statudol a gwirfoddol sydd â diddordeb yn y sector gofal.<br>•Cynnal deialog â'r cynrychiolwyr etholedig.<br>•Swyddog o'r Cyngor ar gael ar amseroedd penodol i dderbyn sylwadau pobl yr ardal. |
| c) | **A oes angen ailystyried y cynllun?**<br><br>Pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo'r argymhelliad i ymgynghori ar ddyfodol Cartref Hafod y Gest, bydd yr asesiad effaith cydraddoldeb yn cael ei adolygu pan ddadansoddir canlyniadau'r ymgynghoriad ac y llunnir argymhelliad ar y ffordd ymlaen. |

## 11) TREFNIADAU MONITRO AC ADOLYGU

Yn y cyfnod sy'n arwain at gyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet ffurfiol, bydd trefniadau ymgysylltu a chefnogi budd-ddeiliaid yn cael eu cydlynu gan Reolwr Ymgysylltu Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n adrodd i'r Pennaeth Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol.

Pe bai'r argymhelliad i ddechrau proses ymgynghori ar Gartref Hafod y Gest yn cael ei gymeradwyo, bydd y Rheolwr Ymgysylltu, ynghyd â swyddogion perthnasol o Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden, yn cydweithio i gydlynu'r broses ymgynghori a chefnogi budd-ddeiliaid allweddol drwy'r cyfnod.

Bydd y swyddogion yn adrodd i Fwrdd Prosiect newydd fydd yn cael ei sefydlu dan y Cynllun Strategol fydd yn gyfrifol am symud ymlaen â 'Trawsnewid Gwasanaethau Pobl Hŷn'.

**12) CYNLLUN GWEITHREDU**

Dylid atodi Cynllun Gweithredu sy'n cynnwys y camau gweithredu, cyfrifoldebau, amserlen ac amlinelliad o'r trefniadau adolygu a gwerthuso.

Mae'r tabl isod yn crynhoï'r prif gamau gweithredu fydd ynghlwm i unrhyw broses ymgynghori. Noder y bydd yr amserlen yn cael ei thrafod a'i phenderfynu gan y Cabinet.

| **Prif Gamau Gweithredu** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Cyfathrebu penderfyniad y Cabinet ffurfiol i fudd-ddeiliaid allweddol | |
| Llunio Pecyn Gwybodaeth | |
| Lansio'r ymgynghoriad | |
| Ymgynghoriad yn dirwyn i ben | |
| Dehongli canlyniadau a pharatoi adroddiad i'r Cabinet gydag argymhellion ar y ffordd ymlaen | |
| Cyflwyno adroddiad gydag argymhellion i'r Cabinet | |

**13) PENDERFYNU**

Cafodd yr asesiad hwn ei dderbyn a'i gymeradwyo gan:

- Dafydd Lewis, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cyngor Gwynedd
- Morwenna Edwards, Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Cyngor Gwynedd
- Uned Cydraddoldeb ac Iaith, Cyngor Gwynedd